# BETH YW PRENTISIAETH GRADD?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Prentisiaeth sy'n arwain at gymhwyster lefel gradd llawn. Gallai hyn fod yn radd baglor neu feistr, neu gymhwyster proffesiynol lefel gyfatebol.**

## AR GYFER PWY MAE PRENTISIAETHAU GRADD?

Gall unrhyw un yng Nghymru sydd yn cwrdd â gofynion mynediad prifysgol ar gyfer prentisiaeth gradd ymgeisio. Gan amlaf, mae hwn yn rhywun sydd â chymwysterau ar Lefel 3 – sy'n cyfateb i NVQ Lefel 3 neu wedi pasio 2 Lefel A – ar y fframwaith credydau a chymwysterau (FfCCHC), a/neu brofiad perthnasol yn y diwydiant. Gall y cyflogwr a'r brifysgol neu goleg sy'n cynnig y brentisiaeth gradd yn osod pynciau a graddau penodol.

## PA MOR HIR MAEN NHW'N CYMRYD I GWBLHAU?

Mae prentisiaethau gradd fel arfer yn cymryd rhwng 3 - 5 mlynedd, yn dibynnu ar y lefel a'r rhaglen. Mae prentisiaid gradd yn cael eu cyflogi ac yn ennill cyflog am gyfnod y cwrs.

## SUT MAENT YN CAEL EU HARIANNU?

Mae'r cyflogwr yn talu costau cyflog y prentis ac mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r ffioedd dysgu yn llawn.

## SUT MAE DOD O HYD I BRENTISIAETH GRADD?

Mae'r nifer o lefydd ar brentisiaethau gradd yn cynyddu'n flynyddol, mewn sectorau fel TG, digidol, peirianneg a chynhyrchu. Y prif lefydd i chwilio byddai:

Y Gwasanaeth Prentisiaeth Gwag

Gwasanaeth Lleoli Gyrfa UCAS

Yn uniongyrchol drwy wefan Brifysgol

## YW PRENTISIAETH GRADD YR UN PETH Â GRADD DRADDODIADOL?

Ydy – mae'n union yr un peth â gradd astudio amser llawn. Bydd modd i ti ddefnyddio'r hyn rwyt ti'n ei ddysgu yn syth yn y gweithle a helpu i gyflwyno syniadau a dulliau newydd.

## BETH YW MANTEISION PRENTISIAETH GRADD?

**Mae nifer!**

- Rwyt ti'n gyflogedig ac yn ennill cyflog.
- Dwyt ti ddim yn talu ffioedd cwrs.
- Byddi di'n dysgu oddi wrth gydweithwyr a staff addysgu, gyda'r gallu i ddefnyddio'r hyn rwyt ti'n ei ddysgu ar unwaith.
- Byddi di'n datblygu gwybodaeth, profiad a sgiliau gwerthfawr.

**Am ragor o wybodaeth, chwiliwch**

PRENTISIAETH CYMRU

DEWIS DOETH

Prentisiaethau
Apprenticeships